# PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL

**(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd H.C.Clarke** |
| **Cynghorwyr**: | O.S.Davies, J.Jones, A.R.Lockyer, A.Lodwig, K.Morris, P.D.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | R Davies and J.Hodges, A.Bradshaw, A.Turner, A.Jarrett, A.Thomas, C. Matthews, C.Morris, C.Howard, C.Davies, C.Frey-Davies,C.May, C.Griffiths, D.Harding, E.O'Brien, M.Potts, N.Jones, R.Davies, R.Turner, S.Waite, S.Coffey, S.Bradshaw, C.John and A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Llewelyn, J.Hale a/ac S.Harris |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Y Cyng. S Knoyle – Opsiynau ar gyfer Trem y Glyn Personol, nid rhagfarnol. Cartref gofal preswyl

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cytunodd yr aelodau i graffu ar eitemau 7,11,14 a 15 ar agenda Bwrdd y Cabinet.

Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar CNPT 2022-2023

Cyflwynwyd gwybodaeth i aelodau a oedd yn ymwneud â chefndir a chrynodeb o gynnwys Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol drafft 2022-2023 Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot.

Holodd yr aelodau pam yr oedd diffyg swyddi parhaol ar draws y staff ymyrraeth a'r hyn oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cadarnhaodd swyddogion fod y diffyg swyddi parhaol yn ymwneud â swyddi penodol o fewn y tîm. Mae rhai swyddi'n cael eu hariannu gan arian grant ac maen nhw ar gontract treigl blwyddyn i flwyddyn. Bydd gwerthusiad swyddi hefyd yn cael ei wneud ar swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.

Gofynnodd aelodau a allai adroddiadau yn y dyfodol gysylltu â rhai ystadegau ar y rhai allai fod â chyflwr niwro-amrywiol

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Ailgartrefu Cyflym

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau a oedd yn ymwneud â Chynllun Ailgartrefu Cyflym drafft CNPT.

Cadarnhaodd swyddogion fod hwn yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i ddod â digartrefedd i ben. Mae'r cynllun eisoes wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi ei gydnabod fel un o'r cynlluniau mwyaf manwl a gafwyd o bob rhan o Gymru.

Cadarnhawyd bod dros 175 o bobl mewn llety dros dro bellach. Nod y cynllun a ddatblygwyd yw cynorthwyo gydag ailgartrefu pobl cyn gynted â phosib. Mae yna brinder penodol o fflatiau 1 ystafell wely. Gwnaeth swyddogion hefyd gydnabod bod y bobl sy'n ddigartref yn

llawer mwy dryslyd a bod ganddyn nhw fwy o anghenion cymorth. Bydd angen hefyd ddatblygu'r system tai yn gyntaf ynghyd â'r cynllun.

Mae angen i'r awdurdod edrych ar lety addas hefyd. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae angen i bob llety dros dro fod yn hunangynhwysol ac nid yw pob llety'n bodloni'r safon honno. Ar ben hynny, mae swyddogion yn ceisio arafu'r mewnlifiad i'r gwasanaeth drwy ymdrin â materion yn gynharach yn y system.

Holodd yr aelodau a fyddai unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r eitemau hyn. Os na, pwy all herio hyn, a sut.

Dywedodd swyddogion fod y Ddeddf Rhentu Cartrefi a oedd i fod i ddod i rym yn fuan yn gwaethygu'r broblem dai, gan fod llawer o landlordiaid bellach yn gwerthu eu heiddo mewn ymateb i'r ddeddf.

Canmolodd yr aelodau y swyddogion am eu gwaith sydd i'w wneud ar yr eitem hon. Gofynnodd aelodau i swyddogion gysylltu â chydweithwyr cynllunio i sicrhau, pan fydd tai yn cael eu datblygu, bod mannau poblogaidd yn cael eu hosgoi lle bo hynny'n bosib. Hefyd, bod tai yn cael eu gwasgaru ar draws yr holl wardiau.

Mynegodd aelodau eu pryder am leoliad gwasanaethau cymorth mewn perthynas â thai a'r preswylwyr y mae angen gwasanaethau cymorth arnynt. Cadarnhaodd swyddogion fod rhan o'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn cynnwys edrych ar wasanaethau cefnogi a'r ddarpariaeth grant sydd ar waith, i edrych ar sut y gellir cefnogi pobl yn well o fewn eu llety. Mae o fewn rhodd yr awdurdod i ddigomisiynu ac ail-gomisiynu'r holl wasanaethau cymorth a dyna fydd yr awdurdod yn ei wneud wrth symud ymlaen gyda'r cynllun.

Holodd yr aelodau pam nad oedd cofrestr tai cyffredin. Byddai hyn yn gwneud y system yn fwy syml i'r ymgeisydd a'r cymdeithasau tai amrywiol. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn ystyried yr opsiwn hwn cyn trosglwyddo stoc, ond ar yr adeg hynny nad oedd awydd amdano. Fodd bynnag, mae sgyrsiau diweddar wedi arwain at ymgysylltu mwy cadarnhaol ac mae hyn yn rhywbeth a fydd yn parhau.

Yn dilyn craffu roedd aelodau yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Dyfodol Trem Y Glyn

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn cynnwys manylion am yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer Trem Y Glyn.

Gwnaeth aelodau gwestiynu'r arbediad o £1.375 miliwn dan Opsiwn 1. Dywedodd swyddogion fod yr opsiwn hwnnw yn bwriadu trosglwyddo preswylwyr allan o Drem Y Glyn i gartrefi gofal Pobl eraill, ond ar hyn o bryd, dim ond 7 lle gwag sydd ar gael. Felly, byddai hyn bellach yn golygu y byddai preswylwyr yn cael eu trosglwyddo i opsiynau y tu allan i'r sir, a fyddai'n ddrytach. Oherwydd cyflwr anwadal presennol y farchnad, mae'r sefyllfa'n newid o wythnos i wythnos.

Dywedodd swyddogion fod gwlâu Pobl yn ddrytach na darparwyr eraill

Dywedodd swyddogion fod cytundeb bloc gyda Pobl lle mae prisiau wedi cael eu trafod ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod Pobl wedi adeiladu cartrefi ac yn mynd i ddefnyddio rhai o gartrefi presennol CNPT. Fel rhan o hynny mae contract wedi cael ei drafod sy'n ystyried hyn. Trafodwyd cyfraddau bob blwyddyn ers hynny.

Mynegodd aelodau eu pryder am y costau anhysbys sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad ac os yw'r rhain yn debygol o ddod allan o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y flwyddyn. Dywedodd swyddogion y bydden nhw'n ceisio cydbwyso a lleihau'r risgiau.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Dangosyddion Perfformiad Chwarter 1

Holodd yr aelodau beth oedd effaith amseroedd aros hir ar gyfer grantiau cyfleusterau anabl ar ofal cartref. Nododd swyddogion y darpariaethau sydd ar waith i ymateb i hyn.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau yr adroddiad.

## 5. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Nid oedd y pwyllgor wedi craffu ar unrhyw eitemau preifat.

## 7. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Nid oedd y pwyllgor wedi craffu ar unrhyw eitemau preifat.

**CADEIRYDD**